



YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
E-bost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk



[@ysgolpencae](https://twitter.com/ysgolpencae)
[Dilynwch ni ar Trydar](#)
[Follow us on Twitter](#)

Cylchlythyr Rhif 02/ Newsletter No 02
16.09.2016

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian*

Diwrnod Roald Dahl Day

Diolch i bawb am wisgo fel un o gymeriadau Roald Dahl dydd Mawrth. Cafon ni ddiwrnod wrth ein boddau! Braf oedd gweld y ffotograffau ar ein cyfrif Trydar ac ar y rhaglen deledu Heno ar S4C/A *big thank you to everyone who dressed up as one of Roald Dahl's characters. We had a great day! The photographs were placed on our Twitter account and shown on the S4C Heno programme.*

Llongyfarchiadau mawr i Rhydderch (Blwyddyn 4) ar dderbyn y wobr gyntaf ac i Alfie Franklin (Blwyddyn 6) ar dderbyn clod uchel am eu gwaith celf yng nghystadleuaeth gelf Roald Dahl. Mynychon nhw seremoni wobrwyo dydd Sadwrn diwethaf/*Congratulations to Rhydderch (Year 4) for being awarded first prize and Alfie (Year 6) being highly commended in the Roald Dahl's art competition. Both attended an award winning presentation last Saturday.*

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 weithdy Roald Dahl heddiw. Perfformion nhw i weddill yr ysgol ar derfyn y dydd/*Year 6 pupils participated in a Roald Dahl drama workshop today. They presented their performance to the whole school at the end of the school day.*

Cyflwyniad Dosbarth i Rieni / Class Presentation to Parents: BI 1 – BI 5

Heddiw/Today

3pm

Cofiwch lofnodi'r gofrestr yn y dosbarth/*Please ensure that you sign the register in the class.*

Mae'r athrawon yn edrych ymlaen at eich croesawu i'w dosbarthiadau/*The teachers look forward to welcoming you to their classes.*

Drysau Agored Llandaf / Llandaf Open Doors

Dosbarthwyd taflen wybodaeth i chi heddiw yn ymwued â holl weithgarwch Llandaf/*An information sheet regarding all activities was distributed to you today.*

Pam ddim hebrwng eich plant ar daith Roald Dahl?/Why not take your children on the Roald Dahl trail?

Mawrth/Tuesday (20.09.16) am/at 6.00pm Eglwys St John's Church Danescourt.

Bydd angen i chi ffonio er mwyn cadw lle/*You will need to phone to book a place:*
20 563 181

Dydd Mawrth/*Tuesday 20.09.16 am 10yb/am*

Gwahoddir cyfeillion o Llandaf ynghyd â theulu estynedig yr ysgol (teidiau a neiniau ac ati) i'r ysgol fore Mawrth am 10yb fel rhan o gynllun Drysau Agored Llandaf 2016. Byddant yn mynd ar daith o amgylch yr ysgol cyn mwynhau cyngerdd byr gan y disgyblion. Darparir te, coffi, bisgedi Masnach Deg ynghyd â chacennau iddynt. Cesglir arian at yr elusen MacMillan fel rhan o'r fenter Bore Coffi MacMillan. Edrychwn ymlaen at eu croesawu i'r ysgol/*The school will open it is doors on Tuesday morning to our friends in the community (including grandparents etc) at 10am as part of the 2016 Llandaf Open Doors scheme. They will be taken on a tour around the school before enjoying a short concert by the pupils. Fair Trade tea, coffee, biscuits and cakes will be provided. Contributions towards the MacMillan charity will be collected as part of the MacMillan Coffee Morning. We look forward to welcoming them to school.*

WCW/CIP

Cofiwch ddychwelyd y ffurflen archeb gyda'r arian erbyn dydd Llun (19.09.16)/
Please remember to return the order form with the money by Monday (19.09.16).

Urdd

Cofiwch ddychwelyd y ffurflen archeb gyda'r arian erbyn dydd Gwener (23.09.16)/
Please remember to return the order form with the money by Friday (23.09.16).

Mae'n bwysig ymaelodi gyda'r Urdd er mwyn cystadlu yn yr amryfal gystadlaethau ac yn yr Eisteddfod/*It is important to join the Urdd in order to compete in the numerous competitions and in the Eisteddfod.*

Prydlondeb / *Punctuality*

Anelwch i gyrraedd yr ysgol ar amser os gwelwch yn dda. Mae cyrraedd yn hwyr yn gallu cael effaith niweidiol ar les ac addysg eich plentyn. Dewch â'ch plentyn i'r **iard waelod** pan gyrhaeddwch yr ysgol rhwng 8:45am a 8:55am/*Please aim to arrive at school on time. Arriving late can have an adverse effect on the education and welfare of your child. Bring your child to the bottom yard when you arrive at school between 8:45am and 8:55am.*

Parcio'n ddiogel / *Parking safely*

Mae gan yr ysgol system un ffordd answyddogol, sef gofynnwn i chi yrru fyny Heol Gilian, heibio'r ysgol ar Highfields ac yna i lawr Heol Greenwood. **Gofynnaf yn garedig i chi rannu'r wybodaeth hon gydag unrhyw un sy'n casglu disgyblion o Ysgol Pencae / *The school has an informal one way system, please drive up Gilian Road, pass the school on Highfields and then down Greenwood Road. I am kindly asking you to share this request with anyone who collects pupils from Ysgol Pencae.***

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pencae / *Parents and Teachers Association*

Cofiwch ddod i'r noson gymdeithasol/*Please come to the social evening*

HENO/TONIGHT

16.09.16

Noson Rasmus/*Race Night*

Ysgol Pencae

Cewch dalu wrth y drws/*You may pay on the door.*

Cynhelir cyfarfod **yn fuan** yn neuadd yr ysgol. **Croeso i bawb!**

*A meeting will be held soon in the school hall. **Everyone welcome!***

*Mwy o fanylion i ddilyn/*More details to follow.*

Lluniau unigol neu deulu: Dydd Mawrth, 11 Hydref ***Individual or family photographs: Tuesday, 11 October***

Mae cwmni Colorfoto yn dod i'r ysgol ar 11 Hydref i dynnu lluniau pob plentyn yn unigol. Nodwch isod os hoffech lun gyda brawd/chwaer/teulu. Bydd y ffotograffydd yn barod i dynnu lluniau'r plant cyn oedran ysgol am 8.30 y bore. Mae'n bwysig bod eich plentyn yn gwisgo'r wisg ysgol gywir. *The Colorfoto company is coming to school on 11 October to take an individual photograph of each child. Note below if you would like a photograph with a brother/sister/family. The photographer will take photographs of pre-school children at 8.30 am. It is important for your child to wear correct school uniform.*

Dyddiadau Gwasanaethau Agored/*Dates of Open Services:*

– dyddiau **Gwener/*Fridays*** am/at **2.50pm**

- **23.09**
- **14.10**
- **11.11**

Dyma gyfle i'ch plant i ddathlu eu doniau trwy ddangos tystysgrifau, medalau neu dlysau. Mae croeso i chi fel rhieni i ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn/*This is an opportunity for your children to celebrate their talents by showing their certificates, medals or trophies. You are welcome to join us in these assemblies.*

Clybiau Ar Ôl Ysgol / *After School Clubs*

Wythnos yn dechrau/*Week beginning* – 19.09.16:

Côr / *Choir*

Bl/Yr 4 – 6:

15.30pm – 16.30pm

Dydd Llun, 19 Medi / *Monday, 19 September*

Clwb Dawns / Dance Club (Cwmni Dance Fit Company)

Bl/Yr 5 – 6: 15.30pm – 16.30pm
Dydd Mawrth, 20 Medi / *Tuesday, 20 September*

Clwb Chwaraeon / Sports Club

Bl/Yr 3 – 6: 15.30pm – 16.30pm
Dydd Mawrth, 20 Medi / *Tuesday, 20 September*

Clwb Jiwdo / Judo Club

15.30pm – 16.30pm
Dydd Mercher, 21 Medi / *Wednesday, 21 September*

Clwb Dawnsio Gwerin / Folk Dancing Club

Bl/Yr 3 & 4: 15.30pm – 16.30pm
Dydd Iau, 22 Medi / *Thursday, 22 September*

Clwb Hwb (Arweinwyr Digidol)/Digital Leaders)

Bl/Yr 3 - 6 15.30pm – 16.30pm
(Disgyblion penodol/*Specific pupils*) Dydd Iau, 22 Medi / *Thursday, 22 September*

Dyddiadau pwysig / Important dates

11.10: Lluniau Unigol / *Individual Photos*

12 & 13.10: Nosweithiau rhieni i Fl 1 i 6 / *Parents' evenings for Yrs 1 to 6*

Bydd cyfle i rieni Dosbarth Derbyn gwrdd â Miss A Burnell ar ôl hanner tymor
Reception Class parents will be able to meet with Miss A Burnell after half term

01 & 02.12: (9.15 – 10.15am) Sioe Nadolig y Cyfnod Sylfaen / *Foundation Phase Christmas Show*

14.12: Gwasanaeth Nadolig yr Adran Iau, **10.30am**. *Mwy o fanylion i ddilyn
*Juniors Christmas Service, 10.30am. *More information to follow*

Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi unwaith eto er lles ac addysg eich plant/
I look forward to working with you all once again for the benefit and education of your children.

Diolch yn fawr,

R R Thomas
Pennaeth

Llun / Photograph**Dydd Mawrth/Tuesday, 11.10.16**

Nodwch enwau'r plant i gael llun gyda'i gilydd

Note the names of the children who will have a group photograph

Enw/Name	Dosbarth/Class